# PERTHYN

**Gorffennaf 2026** **349**



*Mudanod llafar yn atgoffa'r byd o hanes y Congo. t. 6*

# Gair gan y Gweinidog

Yng nghanol y gwres, fe fues yn Llanbed! Nid i dreulio orig yn ymweld â'r amrywiaeth difyr o siopau sydd yno, na'r brifysgol nag i gael hufen iâ, ond yn hytrach i eistedd am dair awr a hanner yng nghapel Shiloh.

Gadewch i mi esbonio. Yn unol â threfn Eglwys Bresbyteraidd Cymru mae Capel Y Morfa yn un o eglwysi Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, henaduriaeth sy'n ymestyn o Daliesin i Dŷ Ddewi ac yn cynnwys rhyw hanner cant o gapeli. Pedair gwaith y flwyddyn, fe fydd y capeli yn cyfarfod i drafod eu bywyd a'u tystiolaeth a hynny mewn llefydd amrywiol, a dyna ddigwyddodd yn Llanbed. Byddai rhai yn barod iawn i gwestiynu gwerth y math yma o drefn, ond bob tro y byddai'n troi trwyn y car i ardaloedd amrywiol y Sir, fe fyddai'n atgoffa fy hun o'r hyn oedd wrth galon y meddylfryd Methodistaidd.

Yr un fath yw hi pan fyddai'n cael fy ngyrru ar y Sul i wasanaethu yn rhai o eglwysi'r Henaduriaeth, ac yn arbennig wrth orfod teithio i lefydd pell fel Trefdraeth a Woodstock, y ddealltwriaeth o awdurdod ond hefyd o Gorff a'r ffaith ein bob yn un yng Nghrist.

Ar y Suliau yma fe fydd yna rhywun yn siŵr o ofyn pam, ac fe fyddai'n ateb gyda'r geiriau syml, 'er mwyn eu hatgoffa ein bod yn un!' Perygl mawr heddiw, yw methu gweld y tu hwnt i'r lleol, ac er bod y lleol mor allweddol i bresennol a dyfodol y dystiolaeth Gristnogol, mae yna werth i'r 'tu hwnt' yng nghyd destun ffydd. Mae yna gysur yn y ddealltwriaeth o fod yn rhan o'r Eglwys Fyd Eang a'r ffaith, yng ngeiriau David Charles

'mae'n tynnu yma i lawr, / yn codi draw'

A'n bod yn rhan o hyn, er bod pethau'n ymddangos yn argyfyngus yn ein gwlad. A'r cysur pellach fod yna eraill yn gweddïo drosom.

Ar y 7fed o Orffennaf am 7 o'r gloch y nos, fe fydd y grŵp Ny Ako yn ymweld â Chapel Y Morfa, grŵp o Madagasgar, grŵp dawns a cherddoriaeth Cristnogol sydd ar daith yng Nghymru.

Fe gofiwch am y ddau frawd David Jones a David Griffiths o Neuadd-lwyd aeth i Fadagasgar a sefydlu ysgolion a chyfieithu'r Beibl i Falagaseg, ac felly mae'r cyswllt yn un cryf. Fe fydd yn noson arbennig, felly dewch yn llu!

Ond mae yna rhywbeth arall hefyd, y ddealltwriaeth o fod yn rhan o rhywbeth sy'n bygwth yr hunan! Er bod rhywun yn gor-gyffredinoli, fe fyddai'n wir dweud mai un o broblemau mawr heddiw yw'r perygl o fyw gormod i'r hunan, a phan mae hynny'n digwydd mae yna golli golwg ar y ddealltwriaeth o frawdoliaeth. Y cymydog yna sy'n gymaint rhan o neges yr Efengyl.

Dwi'n hoff iawn o gyfieithiad Pryderi o emyn John Bell a Graham Maule, 'A ddoi di i'm dilyn i', ac yn arbennig y geiriau –

'Wnei di droi dy gefn ar ddoe
os galwaf d'enw nawr?
Wnei di garu'r gwan a'r gwael
a chladdu y fi-fawr ?'

Y mae'r ddealltwriaeth o fod yn rhan o rhywbeth ehangach yn agor ein bywydau, galon a meddwl i fywydau eraill, yn angen, materol neu ysbrydol, ac i ffyrdd amrywiol o ddeall a chyhoeddi'r Efengyl.

Wrth ddychwelyd gartref o bob eisteddiad, fe fyddai wastad yn teimlo fy mod wedi cael bendith a bod y cyfan wedi bod yn werth yr ymdrech! Y fendith o wrando ar eraill yn rhannu eu ffydd ac yn rhannu syniadau parthed eu bywydau fel eglwysi. Y fendith o fod yng nghwmni unigolion ymroddedig. Y fendith o benderfyniadau. Y fendith o addoliad a'r fendith sy'n atgoffa rhywun bod y dystiolaeth Gristnogol yn dal yn fyw yn ardaloedd amrywiol Ceredigion.

Mwynhewch y tywydd poeth!

***Eifion.***

# Newyddion

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at Dolig Farrell, Ann Hill a Dafydd Evans a fu yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf ac at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi neu mewn cartrefi gofal.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn å Jean Davies a'r teulu ar farwolaeth ei brawd-yng - nghyfraith, sef Mr. Tecwyn Davies.

**Bore Coffi y Clwb Sul**
Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth i'r bore coffi a gynhaliwyd yn y Festri yn dilyn y Gwasanaeth ar Fore Sul. Mehefin 21ain. Codwyd £315.09 tuag at Ward y Plant Ysbyty Bronglais. Diolch i'r rhieni am drefnu'r cyfan ac i'r plant a'r ieuenctid am yr eitemau ardderchog yn amrywio o'r clocsio i'r offerynnol a'r lleisiol.

Gweler y lluniau ar tt. 9-11



**Cofion**

Anfonwn ein dymuniadau gorau at ein aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser a'n cofion at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac sydd yn methu ag ymuno yn y gwasanaethau.  Rydym yn cofio'n gynnes iawn atoch.

**Gwasanaethau mis. Gorffennaf:**

- Gorffennaf 5- Gwasanaeth Cymun
- Gorffennaf  19 - Gwasanaeth

Bydd y gwasanaethau o dan arweiniad ein Gweinidog Y Parch. Eifion Roberts.

Golygyddion y mis hwn yw Sharon ac Arwel. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn AWST/MEDI at Hywel Lloyd erbyn dydd Sul, 26 Gorffennaf, os gwelwch yn dda.

# Byd y Bêl yn Troi Llygad Fyddar

Yn ystod Cwpan y Byd ddydd Mawrth 23 Mehefin, safodd dyn mewn siwt goch yn gwbl lonydd am 90 munud yn y dorf. Yna gorchuddiodd ei geg a phwyntio gwn at ei ben.

Diffoddodd FIFA eu camerâu ar unwaith.

Ei enw yw Michel Kuka Mboladinga - a elwir yn 'Lumumba Vea' sy'n golygu 'Mae Lumumba'n Fyw'. Am fwy na degawd mae o wedi sefyll yn llonydd ym mhob gêm gan DR Congo - mewn siwt a thei, a'i fraich wedi'i chodi, fel teyrnged fyw i Patrice Lumumba, Prif Weinidog cyntaf Congo annibynnol.

Traddododd Patrice Lumumba araith drawiadol ar Ddiwrnod Annibyniaeth y Congo ar 30 Mehefin 1960, gan sefyll o flaen y Brenin Baudouin o Wlad Belg, yn condemnio imperialaeth Gwlad Belg. Galwodd Malcolm X ef yn 'y dyn Du mwyaf i gerdded cyfandir Affrica erioed.'

Chwe mis ar ôl ennill annibyniaeth, cipiodd swyddogion a milwyr o Wlad Belg Lumumba, ei arteithio, a'i ddienyddio gan sgwad danio. Torrwyd ei gorff yn ddarnau a'i doddi mewn asid. Yr unig weddillion hysbys oedd dant aur a gadwyd gan y swyddog o Wlad Belg a oedd yn gyfrifol amdano am 39 mlynedd, tan ei farwolaeth. Dyna beth mae Lumumba Vea yn gofio. Bob un gêm. Mewn siwt. Yn llonydd. Am 90 munud.

Ddydd Mawrth yn erbyn Colombia, ychwanegodd rywbeth newydd. Gorchuddiodd ei geg a chodi bysedd at ei ben i efelychu gwn. Protest dawel, ddinistriol yn erbyn tawelwch y byd ynghylch dwyrain DR Congo, un o argyfyngau dyngarol mwyaf difrifol ond lleiaf ei sylw yn y byd, sydd wedi dadleoli miliynau ac wedi hawlio bywydau di-rif drwy drais a chyflafan.

Aeth Lumumba Vea yn feiral yr wythnos hon. Cafodd sylw gan USA Today, y Wall Street Journal, Reuters, ESPN, Sports Illustrated, CNN a'r BBC. Esboniodd pob sianel y cysylltiad â Patrice Lumumba. Ond soniodd yr un ohonynt am y cysylltiad rhwng llofruddiaeth Lumumba, a gefnogwyd gan y CIA, strategaeth y Gorllewin i ansefydlogi Congo annibynnol, a'r drychineb ddyngarol yn nwyrain DRC heddiw.

Nid troednodyn yw'r cysylltiad hwnnw. Dyna'r stori gyfan.


Mae'r un pwerau Gorllewinol a lofruddiodd Lumumba yn 1961, oherwydd ei fod am i gyfoeth mwynol Congo fod o fudd i bobl Congo, wedi treulio 65 mlynedd yn sicrhau bod y DRC yn parhau'n ansefydlog, gyda'i chobalt a'i choltan yn llifo i gwmnïau technoleg y Gorllewin tra bo'i phobl yn cael eu lladd.

Diffoddodd FIFA'r camerâu. Rhoddodd y cyfryngau prif ffrwd sylw i'r ystum heb yr hanes. A safodd dyn mewn siwt goch yn y stondinau a dweud, heb eiriau, yr hyn y mae'r byd yn gwrthod ei glywed.

Lumumba Vea!




**Cofiwch! Y 7ed o'r 7ed am 7 o'r gloch!**




# Capel y Morfa, 7ed o Orffennaf am 7yh.

# Prysurdeb y Clwb Sul




ITALIA












**Unwaith, fe gynigiodd Elon Musk i ddod a newyn y byd i ben, gan ofyn faint fyddai hynny'n gostio, gan gymryd, y byddai'n rhyw gyfanswm nad oedd modd ei ddirnad.**

**Pan gynigiodd y Cenhedloedd Unedig y byddai $6.6 biliwn yn bwydo'r newynog am flwyddyn, atebodd o ddim.**

**Ychydig o fisoedd yn ddiweddarach prynodd Twitter am $44 biliwn.**

**Does neb yn dioddef oherwydd bod eu cymydog yn ffoadur. Mae pawb yn dioddef am nad oes gan bobl fel hyn gydwybod.**

**Mae'r gost yn llawer mwy na $6.6 biliwn erbyn hyn, ond mae Musk yn Driliwnydd.**

# Dathlu Gwasanaeth Cenedlaethol

Dydd Iau, 11 Mehefin, cynhaliodd y Llyfrgell Genedlaethol ddiwrnod i ddathlu cyn-filwyr y Gwasanaeth Cenedlaethol, neu y Gwasanaeth Gwladol.

Yn bresennol yn y dathliad oedd John Roberts a Meirion Morgan o Gapel y Morfa.


Roedd Gwasanaeth Cenedlaethol yn wasanaeth milwrol gorfodol am gyfnod o ddwy flynedd i ddynion ifanc rhwng 17 a 21 oed a bu'n gweithredu rhwng 1947 a 1963.

Yn ystod y dydd clywyd atgofion hynod, y dirdynnol a'r doniol, gan y cyn-filwyr oedd yn bresennol, ac eraill oedd wedi cael eu recordio ar gyfer archif ddigidol dwyieithog newydd 'Gwasanaeth Milwrol Cymru' ar Gasgliad y Werin fel rhan o brosiect ar y cyd rhwng y Llyfrgell, age Cymru, Cronfa Treftadaeth y Loteri ac Archif Cyn-filwyr Gorllewin Cymru.

I wrando ar atgofion personol Meirion ewch i wefan Casgliad y Werin Cymru a chwiliwch am Gwasanaeth Milwrol Cymru Meirion Morgan. Cewch glywed am ei anturiaethau yn hyfforddi yn Lloegr ac yna 6 mis yng Ngogledd Iwerddon.

Ar yr un tudalen â'r atgofion milwrol mae 'Atgofion Meirion: Caeau'r Ficerdy' recordiwyd ar gyfer Grŵp Trigolion Llangawsai.


Meirion Morgan
Royal Artillery
1955 to 1957
UK
32BE34


John Roberts
Royal Army Pay Corps
1959 to 1961
UK
FIDE ET FIDUCIA

# Gweddi

Bod yn Grist i Bawb

Dduw cariadus,
   cymorth ni i fod yn Grist i bawb
   mae eu bywydau yn ein cyffwrdd.
Gweld eraill
   fel y gwelodd Iesu hwy,
   gyda llygaid tosturiol.
Gwrando
   fel y gwrandawodd Iesu,
   ar gri calonnau ysig
   ac ar fyd rhanedig.
Cyffwrdd eraill,
   fel Iesu,
   gyda gobaith ac iachâd.
Gwasanaethau eraill,
   fel Iesu,
   heb unrhyw amodau.
Torri bara gydag eraill,
   fel Iesu,
   er mwyn porthi'r newynog.
Dathlu gydag eraill,
   fel Iesu,
   lawnder dy ddarpariaeth di.
Dduw cariadus,
   cymorth ni i fod yn Grist i bawb
   y mae eu bywydau yn ein cyffwrdd ni.

AMEN

John Slow, *Gweddïo*, 2001 – 2002

# Cyfarfodydd

Cynhelir Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol yn Neuadd Eglwys Llanbadarn ddydd Llun, **5 Gorffennaf rhwng 12.00 a 1.30pm.**

**Croeso cynnes i bawb**

Cymdeithas Gweddi a Choffi –
bore Mawrth am 10.30 yn y Festri ac wedyn am 11 o'r gloch ar Zoom

Man Cynnes –

Dydd Mercher 11:00-2:00 yn y Festri

Astudiaeth Ffydd a Phaned –
prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom

# Suliau Gorffennaf

## **Blaenor y mis: Menai Lloyd Williams**

05 Gorffennaf – Eifion Roberts

**(Sylwer: Oedfa Gymun am 5:00pm)**

12 Gorffennaf – John Roberts

19 Gorffennaf – Eifion Roberts

26 Gorffennaf – Robert Roberts

## **Blodau**

5 Gorffennaf – Ann, Lewis a Hywel Jones

12 Gorffennaf – Dai Alun a Jane Jones

19 Gorffennaf –

26 Gorffennaf – Sara Williams